# Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## EDT(2) 05-06

### Dyddiad: 16eg Mawrth 2006
### Lleoliad: Y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd
### Teitl: Adroddiad Cynnydd ar Uno'r EDT

#### Adroddiad Cynnydd ar Uno'r EDT

#### Diben

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar gynnydd o ran uno Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) a Bwrdd Croeso Cymru (y Bwrdd Croeso) gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (EDT) gan greu'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (DEIN) newydd.

2. Nod yr adroddiad yw adeiladu ar ddiweddariadau blaenorol i'r pwyllgor, ac felly bydd yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n newydd a pheidio ag ailadrodd yr hyn a gofnodwyd yn flaenorol.

#### Proses Rheoli'r Uno

3. Mae Bwrdd Rhaglen, o dan gadeiryddiaeth Gareth Hall, Darpar Gyfarwyddwr DEIN, yn cyfarfod bob pythefnos yn y cyfnod yn arwain at 1af Ebrill 2006 i adolygu statws cynllun gweithredu'r uno, i amlygu materion a risgiau, ac i sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol.

4. Mae uwch-dîm rheoli cysgodol DEIN wedi'i benodi bellach. Mae'n cynnwys:

Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro (Sharon Linnard)
Cyfarwyddwr Trafnidiaeth (Robin Shaw)
Cyfarwyddwr WEFO (Bob Macey)
Cyfarwyddwr Twristiaeth a Marchnata (Jo Jones)
Cyfarwyddwr Rheoli Corfforaethol (David Childs)
Cyfarwyddwr Polisi a Strategaeth (James Price, yn weithredol o 22ain Mawrth)

5. Mae'r tîm hwn, sy'n cyfarfod cyn dyddiad yr uno, yn canolbwyntio ar symleiddio'r strwythur sefydliadol newydd yn unol â'r blaenoriaethau yn WAVE, y Strategaeth Dwristiaeth, a'r Strategaeth Drafnidiaeth, gan ddatblygu arferion gweithio a threfniadau llywodraethu newydd.

## Y wybodaeth ddiweddaraf ar y strwythur uwch-reolwyr newydd

6. Cymerwyd y cyfle i leihau nifer yr adroddiadau uniongyrchol i'w Prif Swyddog Gweithredu drwy roi cyfrifoldebau arweiniol Cymru gyfan i bob un o'r Cyfarwyddwyr Rhanbarthol. Yn unol â'r enw ar gyfer yr adran newydd sy'n nodi ein blaenoriaethau a'n hymagwedd wrth fynd ymlaen, arweinir gweithgarwch Menter gan Gyfarwyddwr Rhanbarthol y Gogledd. Caiff gweithgarwch Arloesi a Thechnoleg, sy'n cael eu symleiddio ar hyn o bryd, ei uno i ardal fusnes y Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau (KB4B). Bydd Cyfarwyddwr Rhanbarth y De-ddwyrain yn arwain ar Ddatblygu Eiddo Cymru gyfan, gyda Chyfarwyddwr y Canolbarth yn arwain at adfywio 'cyfannol' a Chyfarwyddwr y De-orllewin yn arwain ar gyflawni prosiectau Marina ac Ynni. O ganlyniad, tynnwyd swyddi Cyfarwyddwr Seilwaith a Chyfarwyddwr Sylfeini Busnes allan o'r strwythur.

## Lleoli Staff a Chynllunio Adnoddau

7. Ar hyn o bryd, cyfanswm nifer y staff yn y cyrff sy'n uno yw 1760 (ac eithrio aelodau'r bwrdd). Mae'r ffigur hwn yn ostyngiad o 1820 ym mis Ebrill 2005. O'r cyfanswm hwn, mae 190 o bobl yn cael eu trosglwyddo i mewn i swyddogaethau Corfforaethol Llywodraeth y Cynulliad neu feysydd Polisi eraill.

8. Ar 3 Ebrill 2006, bydd gan DEIN tua 1570 o staff. Hyd yma, rhoddwyd rolau yn y sefydliad newydd i fwyafrif helaeth y nifer hwn, sef tua 1540. Rhagwelir y caiff y gweddill eu penodi i swyddi o fewn Llywodraeth y Cynulliad erbyn diwedd mis Mawrth.

9. Mae uwch dîm rheoli DEIN yn datblygu cynllun ar gyfer ail-alinio adnoddau ar draws yr adran, er mwyn gallu llenwi swyddi gwag sy'n hanfodol i fusnes heb gynyddu nifer cyffredinol y staff.

10. Mae'r strwythur newydd yn adlewyrchu blaenoriaethau Gweinidogaethol newydd, megis sefydlu tîm Polisi a Strategaeth i herio a gwerthuso gweithgarwch ac allbynnau, y Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau, tîm Cyflawni Integredig newydd i ddatblygu a chyflwyno arferion gweithio newydd yn arbennig mewn sectorau allweddol megis Awyrofod, gydag adnoddau staffio ychwanegol mewn Trafnidiaeth ar gyfer rheoli cyfrifoldebau'r fasnachfraint rheilffyrdd newydd, ac ati.

## Paneli Cynghori

11. Denodd yr hysbysebion am geisiadau ar gyfer cadeirydd neu aelodaeth Grwp Cynghori'r Gweinidog (MAG) a'r Panel Cynghori ar Dwristiaeth (TAP) nifer o ymgeiswyr da. Ers hynny, mae dau banel rhestr fer wedi ystyried y ceisiadau ar gyfer y MAG a TAP yn unol â hynny. Fe'm hysbyswyd o ganlyniadau'r prosesau llunio rhestr fer ac yn eu tro maent wedi ysgrifennu at y ddau enwebai Pwyllgor yr EDT, sef Christine Gwyther a Janet Davies, o ran penodiadau cyhoeddus. Y nod yw i gyfweliadau'r rhai hynny ar y rhestr fer gael eu cynnal tua diwedd mis Mawrth ac yn dilyn cyswllt pellach ag enwebeion y Pwyllgor EDT, byddwn yn gobeithio yr hysbysir yr ymgeiswyr llwyddiannus tua mis yn ddiweddarach. Caiff aelodau o'r panel trawsadrannol ar sgiliau eu tynnu o Grwp Cynghori'r Gweinidog EIN, a'r grwp

cyfatebol yn AADGOS. Bydd gan y paneli hyn rolau pwysig wrth gynghori Gweinidogion ar ddatblygu a chyflawni polisi. Rhoddaf ddiweddariad pellach yn ystod y broses benodiadau.

## Adeiladau / Lleoliadau

12. Bydd tua 100 o swyddi yn cael eu trosglwyddo i swyddfeydd newydd Llywodraeth y Cynulliad yng Nghyffordd Llandudno yng Ngwanwyn 2008. Daw'r rhain o feysydd Twristiaeth a Marchnata, Trafnidiaeth a Menter. Disgwylir i bencadlys WEFO symud i Ferthyr Tudful yn ddiweddarach eleni.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

13. Cynhaliwyd gwaith datblygu yn cynnwys gweithio trawsadrannol ar draws Llywodraeth presennol Cynulliad Cymru a'r CCNCau sy'n uno, a chynorthwywyd y gwaith hwn drwy ymgynghori agos â grwpiau cynrychioli busnes.

14. Cynigir model KPI tymor canolig yn cwmpasu pedwar maes:

a. Dangosyddion macroeconomaidd dangosyddion olrhain WAVE yn bennaf

b. Dangosyddion allbwn yn gyson â dangosyddion strategol presennol

c. Gwasanaethau Cwsmeriaid arolwg peilot o ganfyddiad cwsmeriaid – gwasanaethau ehangach sy'n wynebu busnesau yn cynnwys gweithgarwch AADGOS

d. Dangosyddion busnes mewnol yn bennaf yn asesu lleoli adnoddau dynol a boddhad staff

15. Caiff llinellau sylfaen, lle maent ar gael ac yn briodol, eu rhoi ar waith ar ddechrau'r flwyddyn weithredol newydd pan fydd data o'r flwyddyn flaenorol ar gael.

16. Bydd sefydlu fframwaith perfformiad tymor hwy ar gyfer gwaith yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn flaenoriaeth barhaus ar gyfer uwch dîm rheoli'r EIN. Hysbysir hyn gan ymgynghoriad WAVE, bydd yn drawsadrannol, ac yn ymgysylltu â'r gymuned fusnes. Ymhlith haenau allweddol y gwaith mae:

a. Strategol – Rhesymoli, alinio a gwella KPI

b. Technegol – cytgordio ac arweiniad

c. Proses Fusnes – cofnodi protocolau, datblygu systemau

## Buddiannau Uno DEIN

17. Mae'r buddiannau canlynol, yn deillio o'r uno, yn ymwneud yn uniongyrchol â'r themâu allweddol a amlygwyd gyda'r Gweinidog mewn dros 100 o gyfarfodydd gyda busnesau a sefydliadau partner, sef:

a. Aliniad uniongyrchol blaen bolisïau, gweithgarwch a strwythur DEIN gyda'r blaenoriaethau yn WAVE a dogfennau strategol eraill.

b. Herio meddwl sefydledig, rhaglenni ac arferion yn gadarn drwy sefydlu Grwp Cynghori'r Gweinidog, Panel Cynghori Twristiaeth a'r Tîm Polisi a Strategaeth.

c. Paratoi Cynllun Busnes integredig 2006-07 yn cwmpasu'r holl feysydd busnes o fewn DEIN.

d. Pwynt cyswllt cyntaf unigol gyda chwsmeriaid, nid yn unig gyda DEIN, ond ar draws Llywodraeth ehangach y Cynulliad yn cynnwys AADGOS ac SJR. Bydd rheolwyr cyfrifon dynodedig yn cynorthwyo cleientiaid wrth gael mynediad i'r amrywiaeth lawn o wasanaethau, o ddarparu eiddo i staff a hyfforddi a datblygu rheolwyr.

e. Cynllunio strategol a gweithredol ar y cyd gyda AADGOS, SJR ac EPC.

f. Cyflawni datrysiadau pwrpasol i gwsmeriaid mewn ffordd gydgysylltiedig, nid dim ond o fewn DEIN ond ar draws Llywodraeth y Cynulliad a gyda chyrff sy'n bartneriaid.

g. Bydd symud cyflawni mor agos at gwsmeriaid â phosibl, drwy'r swyddfeydd rhanbarthol heb leihau awdurdod a ddirprwyir, yn gwella ein gallu i ymateb i anghenion lleol, cyfleoedd a natur unigryw.

h. Dwyn ynghyd grantiau cyfalaf (RSA, AIG, Adran 4 y Grant Twristiaeth, SMART Cymru, Grant Datblygu Eiddo) i mewn i faes busnes Buddsoddi Cymru newydd, gyda phrosiectau buddsoddi yn cael eu hystyried gan WIDAB. Y nod yw cyfuno'r grantiau hyn yn un gronfa fuddsoddi hyblyg i fusnesau.

i. Rhesymoli rhaglenni cymorth busnes ymhellach yn gronfa gymorth unigol, arbenigol gyda'r hyblygrwydd i gaffael o ffynonellau yn y sector preifat.

j. Creu synegerddau yn sgîl dwyn MasnachCymru Rhyngwladol ac Is-adran Ryngwladol y WDA ynghyd yn faes busnes Masnach a Buddsoddi cyfunol gydag swyddfeydd sengl dramor.

k. Dwyn gweithgarwch marchnata ynghyd ar draws y WDA yn un maes busnes Twristiaeth a Marchnata.

l. Datblygu un set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol casgladwy a mesuradwy ar gyfer DEIN, a

gaiff ei llunio mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr cwsmeriaid allweddol yn cynnwys CBI, FSB a RICS.

m. Cytuno ar safonau ar gyflawni gwasanaethau i gwsmeriaid wedi'u monitro yn erbyn data llinell sylfaen cyn yr uno.

n. Swyddogaethau cymorth cyffredin mwy effeithlon, megis cyllid, adnoddau dynol, TG, caffael a gwasanaethau cyfreithiol, drwy ganolfannau gwasanaeth newydd ac wedi'u hehangu a rennir.

o. Cyflwyno cryfderau Llywodraeth y Cynulliad ehangach i'r Adran newydd, e.e., drwy fabwysiadu systemau caffael, cyllid a chydymffurfiaeth cyffredin.

p. Sefydlu un ganolfan ragoriaeth ar gyfer diwydrwydd priodol ac arfarnu cynlluniau busnes ar gyfer ceisiadau am grantiau DEIN.

## Arbedion Uno

18. Mae gostyngiad o £12m/20% mewn costau rhedeg cyffredinol wedi'i gynllunio erbyn 2008/9. Cyflawnwyd £2m o'r arbediad hwn yn 05/06 yn y cyfnod yn arwain at yr uno. Fodd bynnag, mae angen i gyfanswm lefel gwelliannau effeithlonrwydd fod yn sylweddol fwy na hyn er mwyn sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer blaenoriaethau newydd. Cyflawnir hyn drwy 3 cham:

a. Tynhau'r gwariant presennol drwy gapio'r nifer gwirioneddol o staff ar y lefelau presennol a galluogi i swyddi newydd a gwag gael eu llenwi pan gaiff arbedion eu nodi i'w hariannu.

b. Adolygiad o holl wariant y rhaglen a'i chostau rhedeg cymharol. Bydd hyn yn cynnwys rhoi'r gorau i weithgarwch a ystyrir ei fod yn rhoi gwerth ychwanegol cyfyngedig neu ddim gwerth ychwanegol, ac felly'n galluogi i adnoddau gael eu dargyfeirio i flaenoriaethau newydd i sicrhau bod rhaglenni a pholisïau yn cefnogi datblygu cynaliadwy.

c. Ail-beiriannu prosesau craidd EIN a'r modd y cânt eu cyflawni.

## Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Frandio

19. Yn ystod y misoedd diwethaf, bu cynnydd sylweddol wrth ddatblygu Strategaeth Frand newydd i Gymru. Canolbwyntiodd hwn ar ddau brif fater:

a. Esblygu Strategaeth Brand Cymru, a

b. Creu Brandiau Cyflawni Gwasanaethau Newydd ar gyfer Twristiaeth a Masnach a Buddsoddi.

20. Gan adeiladu ar y gwaith datblygu brand a gynhaliwyd ar gyfer twristiaeth, crëir pensaernïaeth brand newydd ar gyfer Cymru. Mae'r gwaith hwn yn diffinio'r Brand Parth ar gyfer Cymru yn ogystal â lleoli penodol ar gyfer twristiaeth a masnach a buddsoddi. Bydd y brand parth yn dylanwadu ar strategaeth y dyfodol ac ymddygiadau ar draws pob agwedd ar hyrwyddo Cymru. Bydd cryn dipyn o synergedd a chydberthynas amlwg rhwng yr holl leoli. Bydd hyn yn cynnwys gwerthoedd craidd cyffredin; dull cyffredin ar gyfer marchnata cyfochrog; tôn llais cyffredin ar gyfer copïau; a hunaniaeth brand neu logo cyffredin.

21. Bydd canllawiau Brand Newydd, a fydd yn cyfeirio'r broses o'r roi'r gwaith hwn ar waith, ar gael ar gyfer 31ain Mawrth. Datblygwyd logo newydd ac mae'r canllawiau ar gyfer ei ddefnyddio ar fin cael eu cwblhau. Yna bydd y defnydd o'r brand newydd yn dechrau ar gyfer yr holl gyfathrebu marchnata dilynol sy'n ymwneud â marchnata Cymru yn allanol. Bydd gwaith yn y dyfodol yn archwilio sut gellir defnyddio'r brand i gwmpasu byw a gweithio yng Nghymru ac astudio yng Nghymru.

22. Crëwyd dau frand cyflawni gwasanaeth newydd ar gyfer y rhannau hynny o'r EIN sy'n canolbwyntio ar farchnadoedd allanol. "Visit Wales" fydd y brand cyflawni'r gwasanaeth twristiaeth. "International Business Wales" fydd y brand Masnachu a Buddsoddi. Bydd y brandiau hyn yn mabwysiadu logo newydd Cymru fel y nodwyd uchod. Bydd hyn yn sicrhau'r effaith fwyaf posibl a sicrhau bod y pwyslais, yn llygaid ein cwsmeriaid, ar y 'cynnyrch' yn hytrach na'r sefydliad.

## Ymgysylltu â Staff

23. Mae'r buddiannau uchod sy'n deillio'r uno wedi'u cyfathrebu'n eang ac mae dealltwriaeth dda ohonynt. Ni welir pob un o'r rhain o'r cychwyn. Yn unol â hynny, rydym wedi dechrau ar gyfres o 17 o gyrsiau Derbyn yn cynnwys yr holl staff yn yr adran newydd. Ymhlith y pynciau a gwmpesir bydd cyflwyniad i Lywodraeth Cynulliad Cymru a phrosesau craidd y Cynulliad megis Adnoddau Dynol, TG, Caffael a Chyllid.

24. Mae yna nifer o faterion pwysig sy'n ymwneud â phersonél sydd o bwysigrwydd arbennig i staff, megis pensiynau, yr eir i'r afael â hwy drwy neges fanwl ar y cyd gan y rheolwyr a'r Undebau Llafur.

25. Mae Cylchlythyrau EIN, sy'n cwmpasu cwestiynau a godwyd ar draws y sefydliad ac yn egluro newidiadau, yn cael eu cyhoeddi'n wythnosol. Ategir y rhain gan sesiwn holi ac ateb drwy gyswllt fideo gyda'r Ysgrifennydd Parhaol a Chyfarwyddwyr DEIN ac AADGOS, ac ymweliadau anffurfiol i swyddfeydd gan Brif Weinidog Cymru, Gweinidog EIN ac uwch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y cyfnod yn arwain at ddyddiad yr uno a thu hwnt i hynny.

26. Mae sesiynau briffio misol ar fideo, gyda thimau ar draws DEIN, yn amlygu ffyrdd newydd o weithio wrth gyflawni blaenoriaethau Gweinidogaethol yn cael eu trefnu. Mae fideo mis Chwefror, gyda chyflwyniad gan y Gweinidog yn cwmpasu Cwpan Ryder, ac ymhlith pynciau'r dyfodol bydd KB4B, y Cynllun Busnes Integredig ar gyfer 2006-07, Blaenau'r Cymoedd, Sector Gwasanaethau Ariannol, Cyflawni Integredig a Rali Prydain Cymru.